**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW**
**IONAWR 31AIN 2024 AM 7:30YH**
**CYNHALIWYD YNG NGHANOLFAN BRO CERNYW**

**1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

**1.1** Croesawyd pawb gan Clwyd Roberts (CR)

**1.2** Presennol: Einir Williams (EW), Jane Roberts (JR), Ann Vaughan (AV), Myrddin Davies (MGD), Diane Roberts (DR), Mark Davies (MD), Euros Williams (EUW), & Catrin Griffiths (Clerc, CWG)

**1.3** Ymddiheuriadau: Sara Thomas (ST) & Austin Roberts (AR)

**1.4** Absennol: Gwydion Jones (GJ)

**2 DATGANIAD DIDDORDEB**

Dim datganiad.

**3 COFNODION RHAGFYR 13EG 2023 I'W GWIRIO**

Cynigwyd yn gywir gan EW ac eilwyd gan JR .

**4 MATERION YN CODI**

Soniodd JR fod tacsi Rhandir wedi methu mynd un diwrnod yn ddiweddar oherwydd y tywydd garw. AV yn egluro ei bod yn dal i gael trafferth gyda'r band llydan a hynny ers dechrau mis Rhagfyr.

**4.1** Cyfraniad i garreg fedd i'r diweddar T.Hugh Williams - cafwyd trafodaeth ynglŷn âg i gyfrannu ai pheidio ond roedd pawb yn gytûn y gallai hyn osod cynsail ar gyfer y dyfodol ac felly penderfynwyd i wrthod y cais.

**4.2** Rhestr Asesau ar gyfer yr yswiriant - wedi derbyn rhestr gan AV ar gyfer Llangernyw ac EW ar gyfer Gwytherin a bydd angen rhoi'r canlynol ar restr Pandy Tudur:
-twb blodau, hysbysfwrdd, bin bagiau baw ci, mainc yn y fynwent, mainc blwyddyn 2000.

**4.3** Atgoffyn o gwrs Cod Ymddygiad - MGD, EW, ST, EUW 22/2/24

**4.4** Grant Diffibrilydd ac arwyddion VAS - cais wedi mynd i mewn a bydd y panel yn cwrdd ym mis Mawrth gan obeithio clywed ganddynt ym mis Ebrill.

**4.5** CWG wedi gofyn am gymorth AR ynglŷn â'r taliad llwybrau gan nad yw Cyngor Conwy yn ymateb i e-byst.

**5 CEISIADAU CYNLLUNIO**

**5.1** Cais Rhif 0/51351 Petryal, Llangernyw, LL22 8RR

Roedd y Cynghorwyr yn ei gefnogi er yn siomedig ei fod yn gais ôl-weithredol.

**5.2** Cais Rhif 0/51405 The Old Shooting Ground, Trofarth LL22 8BG

Dim sylwadau.

**6 MATERION CYNGOR**

**6.1** Mae diffibrilydd newydd wedi ei roi i mewn yn Nhy'n Terfyn ar dop allt Waterloo. Gofynnodd DR os oes modd cael hyfforddiant a chytunodd CR ei fod yn syniad da. Cynigiodd MD

y byddai'n dda cysylltu gyda'r ysgol i roi hyfforddiant i'r plant hynaf. Penderfynwyd i CWG roi nodyn ar y wefan ac yn y Gadlas i ddweud bod diffibrilydd ar gael yn Nhy'n Terfyn. Bydd angen i CWG holi Tomos Hughes am gwrs a beth fydd y gost. Cynigiodd EUW y byddai'n syniad da cynnal cwrs yn y 3 pentref er mwyn denu mwy yno. CWG i drefnu'r cwrs o ddiwedd Ebrill ymlaen a'i hyrwyddo.

**6.1** Adroddiad Pwyllgor y Mynwentydd wedi ei yrru ar e-bost i bawb gan CWG yn dilyn yr is-bwyllgor diweddar. Mae'r rheolau a phrisiau wedi ei newid ychydig. Trafodwyd y gallai rhai cael eu claddu o du allan i'r ardal a bod mynwentydd eraill yn yr ardal yn dechrau mynd yn llawn. Cytunwyd nad yw claddedigaeth o du allan i'r ardal yn digwydd yn aml iawn ac felly penderfynwyd i'w drafod ymhellach pe bai cais yn codi. Pawb yn cytuno gyda'r cofnodion a'r newidiadau yn y rheolau a phrisiau.

**6.2** Coeden wedi disgyn ym mynwent Gwytherin - Kevin Roberts am fod yn ei chlirio a bydd angen symud 2 (efallai 3) carreg fedd er mwyn medru gallu ei thorri. CR am gysylltu gyda Kevin i weld os oes posib gwneud rhywbeth allan o'r pren.

**6.3** Llwybr o Bont Faen at Dy'n y Caeau - ar ôl i Kevin wneud y gwaith mae'r afon wedi bwyta i mewn i'r llwybr. Mae AR ac Emyr am fynd i weld y llwybr ac mae'n debygol y bydd yn cau.

**6.4** Pwyllgor Ardal Conwy a Sir Ddinbych Un Llais am 7.00yh Dydd Mercher 10 Ionawr 2024 wedi ei fynychu gan DR a CWG. Cafwyd sgwrs gan siaradwr gwadd o 'Llais'.

## 7 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

1: Diweddariad ar rhai o bontydd yr ardal; Pont pentre Pandy, bont ger y ficerdy Pandy, a phont Llangernyw (ger Safle tafarn y bridge) - Cefais gyfarfod teams gyda uwch beiriannydd is-adeiladwaith y sir ddoe. Fe ddywedodd bod nhw wedi sicrhau arian at ddechrau y flwyddyn ariannol sef mis Ebrill i wario ar is-adeiladwaith y sir a byddant yn cynnal adolygiad o hyn ar ôl sicrhau'r arian. Mi fydd y gwaith o atgyfnerthu'r wal ar allt Waterloo yn cael ei arolygu hefyd .

2: Ffordd Ty'n Pistyll wedi ei ail wynebu serch hynny rhai cwynion wedi'w dderbyn ynglŷn â dyfnder y ffos. Mae Emyr Jones Priffyrdd am edrych i weld beth allith ei wneud i leihau'r dyfnder. Mae'r adran hefyd yn awyddus i ddatrys y broblem dŵr ar y A548 yn y cyffiniau yna, ond ar hyn o bryd mae'r tir feddiannwr (Sandbach) yn gwrthod mynediad i'w tir .

3 : Y cais am felin drydan ym Mhen y Bryn Trofarth wedi ei wrthod ond yn debygol o fynd i apêl at y senedd.

4: Amgueddfa Syr Henry Jones - y sefyllfa dal heb newid ac angen swyddogion newydd ar frys.

5: Ar y 6ed o Chwefror mi fyddaf i ac Emyr yn mynd o amgylch y ward yn archwilio'r ffyrdd yn bennaf o amgylch Gwytherin a Phandy a'r ffyrdd sy'n arwain oddi yno i Langernyw. Os oes unrhyw le arbennig yr hoffech chi inni ymweld ag o yna gadewch imi wybod o flaen llaw (os oes yna ffordd yr ydych yn meddwl sydd wirioneddol angen ei ail wynebu neu broblem dŵr fel hwnnw yn Ty'n Bryn).

6: Yn olaf hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth ynglŷn â'r erthygl a ymddangosodd yn ddiweddar yn y Daily Post, dwi 'n gwerthfawrogi yn fawr , ond tydi'r erthygl ddim yn hollol gywir.

DR yn nodi fod andros o ddŵr wrth ymyl Coetmor ac am yrru'r manylion i CWG dros e-bost cyn Chwefror 6[ed]. Gofynnodd CR i bawb arall wneud hyn hefyd er mwyn coladu'r wybodaeth a'i basio ymlaen i AR.

## 8 MATERION ARIANNOL

CThEM - maent yn dweud nad ydynt wedi derbyn y taliad diwethaf. Fe wnaethant ddweud hyn ym mis Rhagfyr hefyd ond mi wnaeth CWG siarad gyda hwy bryd hynny ac mi wnaethant ymddiheuro gan mai eu camgymeriad nhw oedd ef. CWG wedi ffonio eto ac maent wedi dweud eto mai camgymeriad yw'r llythyr diweddaraf yma ond mae angen cadw golwg ar y debyd uniongyrchol i wneud yn siŵr nad oes 2 daliad ym mynd allan ar gyfer chwarter 3.

TAW - CWG wedi e-bostio Iona eto i ofyn iddi ei hawlio ond yn dal i aros iddo ddigwydd.

HSBC - wedi rhoi cais i mewn am y trydydd tro ac nid oes ganddynt gofnod o'r rhai blaenorol. Gobeithir y bydd y bancio ar lein wedi ei osod i fyny yn fuan.

## 9 GOHEBIAETH

**9.1** Bagiau biniau baw ci - wedi cael ateb yn ôl gan Gyngor Conwy nad ydynt yn rhoi rhai allan ar y funud hyd nes y byddent wedi chwilio am arian i allu eu cynnig eto.

Mae'r canlynol wedi eu gyrru i bob cynghorydd ar e-bost er gwybodaeth:
**9.2** Gweminar am ddim: Teithiau hunan-dywys rhyngweithiol ar gyfer pentrefi, trefi a chymunedau 25/01/24
**9.3** E-bost ynglŷn â'r wasgfa ariannol gan Gyngor Conwy
**9.4** Ymgynghoriad newydd: Dibenion gwariant y dyfodol ar gyfer arian asedau segur yng Nghymru
**9.5** Ymgynghoriad: Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol
**9.6** Sesiwn hyfforddi Iechyd Digidol Cynghorau Cymuned a Thref - dyddiad i DR
**9.7** Dyddiadau hyfforddiant Un Llais
**9.8** Pwyllgor Ardal Conwy a Sir Ddinbych Un Llais am 7.00yh Dydd Mercher 10 Ionawr 2024
**9.9** Y Gofrestr Etholwyr - wedi cael e-bost i ddweud y gellir gofyn am gopi o'r gofrestr. Penderfynwyd i CWG i ofyn am gopi iddi ei hun.
**9.10** Arolwg Presgripsiynu Cenedlaethol
**9.11**Cronfa Feicro - wedi ail-agor
**9.12** Ymgynghoriad ar y gyllideb gan Gyngor Conwy - copi papur wedi ei rannu gan AV i'r rhai sydd heb fynediad ar-lein. Bydd angen ei ddychwelyd i'r llyfrgell erbyn dydd Gwener yma.
**9.13** Ymgynghoriad ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028
**9.14** Cynllun Ffioedd Archwilio Cymru 2024-25
**9.15** Cwrs 'TG, Gwefannau a Chyfryngau Cymdeithasol.' gan Un Llais
**9.16** Cynnig ar gyfer Parc Cenedlaethol newydd – gwahoddiad i sesiwn wybodaeth
**9.17** Cyllideb y Cyngor 2024/25
**9.18** Cynhadledd Gwobrau Cenedlaethol Un Llais Cymru 27/03/2024

Mae'r canlynol wedi eu gyrru i DR ar e-bost er gwybodaeth:
**9.19** E-bost ynglŷn ag enghreifftiau o fioamrywiaeth
**9.20** Gwylio Cyflymder Cymunedol - cafwyd trafodaeth fod ers i'r terfyn cyflymder o 20 m.y.a. ddod i rym fod pobl yn goddiweddyd tu mewn i'r pentref.

## 10 BILIAU

**10.1** Bil cyfieithu Enlli ar gyfer mis Rhagfyr - £95

**10.2** Canolfan Gymunedol Bro Cernyw - £30 am dâl aelodaeth, £12 rhent cwpwrdd a 2 x gyfarfod = cyfanswm o £52
Penderfynwyd i dalu'r uchod i gyd.

## 11 MATERION LLEOL

**DR** - Holodd beth oedd y diweddaraf o ran yr arwyddion cyflymder VAS. Penderfynwyd i ofyn i Richard Roberts i fynd ymlaen cais cyn gweld os yw grant Clocaenog yn llwyddiannus ai peidio. Dywedodd hefyd fod y tybiau blodau wrth yr orsaf bws yn llawn dŵr felly bydd MD yn mynd yno i'w godi ar fricsen i helpu'r broblem. Nododd hefyd fod Cyngor Cymuned Llysfaen yn rhoi côd QR ar hysbysfwrdd y cyngor gyda linc i holiadur. Penderfynwyd i CWG ymchwilio i weld os yw'n bosib gwneud hyn yn Llangernyw hefyd .
**AV** - Soniodd fod 2 arwydd *Calor Gas* wrth yr Eglwys yn flêr ac yn tynnu oddi-ar yr hysbysfwrdd. Penderfynwyd eu tynnu a'u storio yn y cwpwrdd. Dywedodd fod angen hysbysebu cytundeb torri gwair y fynwent yn y Gadlas ar gyfer mis Chwefror yn ogystal â'i gyhoeddi ar y wefan, yr hysbysfwrdd ac ar *facebook*. Rhannodd daflenni am gyllideb y Cyngor a Syr Henry Jones.
**JR** - Dywedodd fod y glaswellt tu allan i dŷ MD yn edrych yn flêr ac roedd i fod i gael ei dorri ar ddiwedd y tymor. CWG i gysylltu gydag AR iddo gael ei dorri.
**EW** - Tynnodd sylw at efallai bod gwerth i bren y goeden ywen a ddisgynnodd ym mynwent Gwytherin a bod hi werth ymchwilio i weld os oes posib creu rhywbeth allan ohono..

## 12 CYFARFOD NESAF

Chwefror 28$^{ain}$ 2024 yng Ngwytherin.
Cyfarfod yn dod i ben am 9:20 y.h.
Cymerwyd y cofnodion gan CWG.